# Cyrsiau Canolfan Tywi

www.canolfantywi.org



## Hyfforddiant Adeiladu Treftadaeth

CANOLFAN TYWI

TYWI CENTRE

citb

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Canolfan Tywi, Fferm Dinefwr, Llandeilo SA19 6RT**
**01558 824271 | CanolfanTywiCentre@carmarthenshire.gov.uk**

# Cynnwys

Canolfan Tywi ........ 2

Sefydliad Hyfforddi Cymeradwy ........ 3

Cyllid ar gyfer Hyfforddiant ........ 3

Costau'r cyrsiau ........ 4

Dyddiadau'r Hyfforddiant ........ 4

Ein Tiwtoriaid ........ 4

Tablau cryno o'r holl gyrsiau ........ 5

**Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Treftadaeth Gyffredinol a Chalch ........ 7**

**Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Plastro Treftadaeth ........ 10**

**Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Gwaith Saer Treftadaeth ........ 12**

**Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Gwaith Saer Maen Treftadaeth ........ 15**



# Canolfan Tywi

Mae Canolfan Tywi wedi bod yn cyflwyno hyfforddiant adeiladu ym maes treftadaeth ledled Cymru ers ei sefydlu ym 2009. Dros y degawd diwethaf mae wedi adeiladu enw da am gyflwyno hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb, gan arbenigwyr sydd â gwybodaeth helaeth ym maes adeiladu treftadaeth.

Cyflawnwyd hyn trwy:

- Gyflwyno Rhaglenni Sgiliau Cymhwysol Arbenigol NVQ3 mewn plastro treftadaeth, gwaith saer a gwaith maen, darparu hyfforddiant oddi ar y safle ac achrediad i bobl fedrus a gyflogir ym maes adeiladu. Cyflwynir ar y cyd â Chanolfan Achredu Arbenigol Genedlaethol CITB.

- Cyflwyno asesiad NVQ3 mewn plastro treftadaeth, gwaith saer a saer maen drwy lwybr OSAT, ar y cyd â'r Prosiect Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru.

- Gweithio gyda chwmnïau adeiladu i nodi a chyflwyno hyfforddiant i ddiwallu eu hanghenion penodol.

- Dod yn sefydliad hyfforddi sydd wedi'i gymeradwyo gan CITB.

- Gweithio gyda Cholegau Addysg Bellach ledled Cymru i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant treftadaeth i gefnogi dysgwyr adeiladu Lefel 1, 2 a 3.

- Gweithio gyda Chymwysterau Cymru a City and Guilds i ddatblygu'r cwricwlwm coleg adeiladu newydd, sydd i'w gyflwyno ym mis Medi 2021.

- Cefnogi Cadw a Historic England yn eu rhaglenni hyfforddi a'u prosiectau addysg. Er enghraifft, trwy ddatblygu a chyflwyno rhaglen datblygu sgiliau Cadw ar gyfer cymunedau difreintiedig a chyflwyno hyfforddiant yn Flaxmill Maltings yn yr Amwythig.

- Bod yn arweinydd yng Nghymru ar gyfer hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am adeiladu treftadaeth trwy gynnal cyfres o gynadleddau a digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r pynciau wedi cynnwys: effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a godwyd cyn 1919; ailddefnyddio adeiladau eglwysig segur; a dod â threftadaeth i'r brif ffrwd.

- Datblygu a chyflwyno cyfres o gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer manylebwyr, megis Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth a chynnal Arolygon o Gyflwr Ffenestri.

I gael rhagor o wybodaeth am Ganolfan Tywi ewch i'n gwefan **www.canolfantywi.org**



# Sefydliad Hyfforddi Cymeradwy

Mae Canolfan Tywi yn Sefydliad Hyfforddi Cymeradwy ar gyfer Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB). Mae Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy yn cael eu cydnabod gan y CITB fel darparwyr hyfforddiant sy'n cyflwyno hyfforddiant o ansawdd uchel yn gyson yn unol â safon hyfforddi y cytunwyd arni gan y diwydiant.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi manylion am bob un o'r cyrsiau Sefydliad Hyfforddi Cymeradwy y mae Canolfan Tywi yn eu cyflwyno ar hyn o bryd.

# Cyllid ar gyfer Hyfforddiant

Mae cwmnïau sydd wedi'u cofrestru gyda'r CITB yn gallu cael mynediad i gyllid am hyfforddiant a gyflwynir gan Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy. Am fanylion llawn am y grant a'r cyllid sydd ar gael ewch i https://www.citb.co.uk/levy-grants-and-funding/grants-funding.

Y cyllid sydd fwyaf perthnasol i'r cyrsiau y mae Canolfan Tywi yn eu cynnig yw:

**1. Grantiau Cyrsiau Byr**
Caiff Grantiau Cyrsiau Byr eu talu fesul ymgeisydd am gyflawni cyrsiau byr sydd yn cyfateb i safonau cymeradwy sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Mae pob un o'r cyrsiau a restrir yn y llyfryn hwn yn ffitio i'r categori hwn.
Mae'r CITB yn talu grantiau ar gyfraddau 3 haen. Caiff yr haen ei phennu gan y CITB yn seiliedig ar hyd a chynnwys y cwrs:

- Mae Haen 1 yn £30
- Mae Haen 2 yn £70
- Mae Haen 3 yn £120

Gellir gweld yr haen sy'n berthnasol i bob un o'n cyrsiau yn y tablau crynodeb sy'n dilyn.

**2. Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant**
Nod y gronfa sgiliau a hyfforddiant yw helpu cwmnïau fanteisio ar brofiadau dysgu a datblygu o ansawdd uchel ar gyfer eu gweithwyr. Gall cyflogwyr sydd wedi cofrestru gyda'r CITB wneud cais am gyllid ar gyfer cyrsiau cydnabyddedig a gyflwynir gan Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy. Mae faint o arian sydd ar gael i gwmnïau yn ymwneud â faint o weithwyr uniongyrchol sydd ganddynt. Gall eich Ymgynghorydd CITB lleol gynnig cymorth i chi yn eich cais am arian gan y gronfa 'Sgiliau a Hyfforddiant'.





# Costau'r cyrsiau

Mae'r tablau isod yn cynnwys cost cyflwyno pob cwrs. Mae'r gost fesul cwrs, nid fesul person. Mae'r gost yn seiliedig ar gyflwyno'r cyrsiau yng Nghanolfan Tywi. Mae'n bosibl i ni gyflwyno hyfforddiant mewn lleoliadau eraill ond byddai yna dâl ychwanegol am gostau teithio a threuliau'r tiwtor.

# Dyddiadau'r Hyfforddiant

Mae Canolfan Tywi yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion ein cleientiaid. Gallwn drefnu cwrs yn ein canolfan yn Llandeilo neu mewn lleoliad ac ar ddyddiad sy'n cyd-fynd â'ch amserlen waith. Cysylltwch â ni i drafod anghenion hyfforddi eich cwmni, eich sefydliad neu'ch grŵp hyfforddi.

Os byddai'n well gennych ymuno â chwrs sydd wedi'i drefnu gan Ganolfan Tywi, ewch i'n gwefan i gael y dyddiadau a'r prisiau unigol.

# Ein Tiwtoriaid

**Tom Duxbury (Canolfan Tywi)** - Tom Duxbury - Mae gan Tom dros 30 o flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant adeiladu yn rhedeg busnes gwaith coed ac adeiladu arbenigol. Mae Tom yn Aelod Trwyddedog o City & Guilds ac yn 2010 graddiodd gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Cadwraeth a Rheolaeth Adeiladau.

Mae Tom yn hyfforddwr ac yn aseswr mewn sgiliau treftadaeth ac yn gweithio fel Swyddog Cadwraeth i Gyngor Sir Caerfyrddin a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Nell Hellier- (Canolfan Tywi)** - Uwch-swyddog Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Oliver Coe and Thom Evans (Coe Stone Ltd.)** - Mae gan Oliver a Thom bortffolio cyfredol a thrawiadol o brosiectau adfer clodfawr gan gynnwys Eglwys Gadeiriol Llandaf, Oriel Gelf Glynn Vivian a Chastell Aberteifi. Mae gan Oliver a Thom wybodaeth a phrofiad helaeth yn ymwneud â phob agwedd ar waith maen.

**Joe Moriarty (The Lime house traditional building and plastering)** - Mae Joe wedi

gweithio fel plastrwr ers dros 20 mlynedd ac mae wedi arbenigo mewn plastro treftadaeth a gwaith calch am y 7 mlynedd diwethaf. Yn ddiweddar enillodd Joe Gymhwyster MSc. mewn Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy o Ysgol Bensaernïaeth Cymru.



# Tablau cryno o'r holl gyrsiau

Caiff pob un o'r cyrsiau eu cyflwyno yn unol â'r safonau a osodwyd gan y CITB. Gyda rhai cyrsiau, mae'n bosibl datblygu a theilwra'r cynnwys i ddiwallu anghenion hyfforddi penodol a phwrpasol.

## Crynodeb o'r cyrsiau **TREFTADAETH A CHALCH CYFFREDINOL**

| Teitl y Cwrs | Côd GET y CITB | Cyfradd Grant Cyrsiau Byr fesul dysgwr | Manylion-Rhif y dudalen | Hyd mewn diwrnodau | Cost cyflwyno yng Nghanolfan Tywi - fesul cwrs |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol (cyn-1919) (Mae'r cwrs hwn hefyd ar gael trwy'r prosiect Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru am gost o £40 y pen) | GET0299 | £70 | 4 | 2 | £1,700 |
| Cyflwyniad i weithio gyda chalch mewn adeiladau | GET2226 | £70 | 5 | 3 | £1,620 |
| Technegau uwch ar gyfer gweithio gyda chalch mewn adeiladau. | GET2225 | £120 | 6 | 5 | £2,487 |
| Calch a morteri calch. | GET0516 | £70 | 7 | 2 | £1,082 |
| Arolygu pren a lleithder mewn adeiladau | GET2147 | £30 | 8 | 1 | £530 |
| Adnabod Pensaernïaeth | GET2092 | £30 | 134 | 2 | £785 |

## Crynodeb o'r Cyrsiau **PLASTRO**

| Teitl y Cwrs | Côd GET y CITB | Cyfradd Grant Cyrsiau Byr fesul dysgwr | Manylion-Rhif y dudalen | Hyd mewn diwrnodau | Cost cyflwyno yng Nghanolfan Tywi - fesul cwrs |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis a chymysgu deunyddiau ar gyfer gwaith mewnol ac allanol | GET0536 | £70 | 9 | 3 | £1,620 |
| Cynhyrchu arwynebau solet wedi'u plastro | GET0534 | £120 | 10 | 5 | £2,487 |
| Cadw arwynebau solet wedi'u plastro | GET0531 | £120 | 10 | 5 | £2,487 |
| Gwaith plastro ffibrog (mae'r cwrs 5 diwrnod hwn yn cynnwys 4 modiwl hyfforddi unigol) | GET0530<br>GET0532<br>GET0533<br>GET0535 | £70<br>£70<br>£70<br>£70 | 11 | 5 | £3,200 |

## Crynodeb o'r Cyrsiau **GWAITH SAER**

| Teitl y Cwrs | Côd GET y CITB | Cyfradd Grant Cyrsiau Byr fesul dysgwr | Manylion-Rhif y dudalen | Hyd mewn diwrnodau | Cost cyflwyno yng Nghanolfan Tywi - fesul cwrs |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwaith coed wrth fainc; mewn gweithdy ac ar safle | GET2137 | £120 | 12 | 5 | £2,858 |
| Fframwaith pren trwm | GET2094 | £70 | 13 | 5 | £2,858 |
| Cadw neu adfer cynnyrch pren | GET2093 | £70 | 14 | 2 | £785 |
| Adnabod diffygion; achos ac effaith ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth | GET2077 | £30 | 14 | 1 | £530 |
| Adnabod deunyddiau ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth | GET2095 | £70 | 15 | 2 | £785 |
| Technegau arbenigol ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth | GET2078 | £70 | 15 | 1 | £530 |

## Crynodeb o Gyrsiau **SAER MAEN TREFTADAETH**

| Teitl y Cwrs | Côd GET y CITB | Cyfradd Grant Cyrsiau Byr fesul dysgwr | Manylion-Rhif y dudalen | Hyd mewn diwrnodau | Cost cyflwyno yng Nghanolfan Tywi - fesul cwrs |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnabod deunyddiau | GET1098 | £30 | 16 | 2 | £1,268 |
| Adnabod diffygion; achos ac effaith ar gyfer gwaith maen treftadaeth | GET1099 | £30 | 16 | 1 | £813 |
| Cadw gwaith cerrig; atgyweirio a chynnal a chadw | GET0537 | £120 | 16 | 5 | £2,858 |
| Technegau arbenigol | GET1100 | £30 | 17 | 1 | £813 |

# Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Treftadaeth Gyffredinol a Chalch

## Dyfarniad Lefel 3 mewn Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol (cyn-1919) (2 ddiwrnod)

**Trosolwg**
Mae'r cwrs achrededig hwn yn ychwanegiad anhepgor i bortffolio Datblygiad Proffesiynol Parhaus unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu neu adeiladu treftadaeth. Trwy sesiynau theori ac ymarferol, mae'r cwrs yn cwmpasu'r meysydd gwybodaeth mwyaf hanfodol sy'n ofynnol cyn gweithio ar hen adeiladau. Mae'r tiwtoriaid gwybodus a phrofiadol yn defnyddio ymweliadau â safleoedd ac arddangosiadau ymarferol i alluogi'r ymgeiswyr i roi'r hyn y maent yn ei ddysgu yng nghyd-destun bywyd go iawn.

Gellir addasu'r hyfforddiant i ganolbwyntio ar faes crefft penodol megis gwaith saer, plastro neu waith maen neu gall fod yn fwy cyffredinol, gan ddibynnu ar ofynion y grŵp o ymgeiswyr.

**Crynodeb o'r cynnwys**
- Arwyddocâd a chynaliadwyedd - pam fod hen adeiladau yn bwysig i'n gorffennol, ein presennol a'n dyfodol
- Mecaneg hen adeiladau
- Calch a'r gallu i waliau anadlu
- Arddangosiadau ymarferol yn ymwneud â gwyddor calch, mathau o galch, cymysgeddau ac agregau
- Diffygion mewn adeiladau - achosion a deunyddiau a dulliau priodol i'w hatgyweirio
- Diffygion mewn adeiladau - ymweliadau safle i edrych ar enghreifftiau da ac enghreifftiau gwael o waith atgyweirio
- Deddfwriaeth, diffiniadau a rolau
- Cynllunio gwaith ar adeilad hanesyddol
- Technegau ymchwilio arbenigol
- Egwyddorion newid
- Adeiladau carbon isel a hanesyddol

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**
Mae'r hyfforddiant hwn yn addas i unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu neu adeiladu treftadaeth, gan gynnwys contractwyr a manylebwyr.

**SYLWER:** mae'r cwrs hwn hefyd ar gael trwy'r prosiect Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru am gost o £40 y pen. Gellir dod o hyd i ddyddiadau ar gyfer y cyrsiau cymorthdaledig hyn ar wefan Canolfan Tywi **www.canolfantywi.org.uk**

## Cyflwyniad i weithio gyda chalch mewn adeiladau (3 diwrnod)

**Trosolwg**
Calch yw'r rhwymwr sydd i'w gael bron ym mhob morter, plastr a rendrad traddodiadol. Mae hefyd yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel deunydd ar gyfer prosiectau adeiladu newydd. Mae'r ystod eang o gynhyrchion calch sydd ar gael ar y farchnad yn golygu bod amrywiol bosibiliadau ar gael i ni. Bwriad y modiwl hyfforddi hwn yw cyflwyno'r gwahanol fathau o galch, y dewis o agregau ac ychwanegion, a dewis y cyfuniad priodol i weddu i'r dasg. Bydd yr hyfforddiant yn cwmpasu elfennau ymarferol megis cymysgu'r deunydd, ei gymhwyso ac ôl-ofal. Gellir cyflwyno'r cwrs hwn yng Nghanolfan Tywi neu ar safle sy'n berthnasol i'r ymgeiswyr.

**Crynodeb o'r cynnwys**
- Gweithio ar brosiectau cadwraeth ac atgyweirio hanesyddol
- Darganfod mecaneg hen adeiladau
- Deall calch – gwyddor calch a'r gylchred galch
- Mathau o galch, gan gynnwys pwti, calch hydrolig naturiol, calch corc a chywarch a chalch wedi'i gymysgu'n boeth
- Iechyd a diogelwch sy'n benodol i galch
- Ychwanegion – blew, pozzolana, rhwyll/sgrim
- Agregau
- Dadansoddi morteri
- Dulliau cymysgu
- Cymhwyso i wahanol gefndiroedd
- Sesiynau ymarferol

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**
Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sydd â phrofiad o weithio ym maes adeiladu - naill ai adeiladu treftadaeth neu adeiladu modern. Byddai'n werthfawr iawn i reolwyr safle, plastrwyr a seiri meini sy'n gweithio ar adeiladau hanesyddol.

## Technegau uwch ar gyfer gweithio gyda chalch mewn adeiladau (5 diwrnod)

**Trosolwg**

Calch yw'r rhwymwr sydd i'w gael bron ym mhob morter, plastr a rendrad traddodiadol. Mae hefyd yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel deunydd ar gyfer prosiectau adeiladu newydd. Mae'r ystod eang o gynhyrchion calch sydd ar gael ar y farchnad yn golygu bod amrywiol bosibiliadau ar gael i ni. Bwriad y modiwl hyfforddi hwn yw rhoi cyflwyniad i'r gwahanol fathau o galch, y dewis o agregau ac ychwanegion, a dewis y cyfuniad priodol i weddu i'r dasg. Bydd yr hyfforddiant yn cwmpasu elfennau ymarferol megis cymysgu'r deunydd, ei gymhwyso ac ôl-ofal. Gellir cyflwyno'r cwrs hwn yng Nghanolfan Tywi neu ar safle sy'n berthnasol i'r ymgeiswyr. Er bod cynnwys y cwrs yn debyg i 'Cyflwyniad i weithio gyda chalch mewn adeiladau', mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys modiwl ar gadw ac atgyweirio gwaith plastro a mowldinau ffibrog/addurnol.

**Crynodeb o'r cynnwys**

- Gweithio ar brosiectau cadwraeth ac atgyweirio hanesyddol
- Darganfod mecaneg hen adeiladau
- Deall calch – gwyddor calch a'r gylchred galch, mathau o galch
- Iechyd a diogelwch sy'n benodol i galch
- Ychwanegion – blew, pozzolana, rhwyll/sgrim
- Agregau
- Dulliau cymysgu
- Cymhwyso i wahanol gefndiroedd
- Gwneud gwaith atgyweirio ar blastr a mowldinau presennol
- Deunyddiau a ddefnyddir i gynhyrchu ac atgyweirio gwaith plastro ffibrog.
- Sesiynau ymarferol

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**

Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sydd â phrofiad o weithio ym maes adeiladu - naill ai adeiladu treftadaeth neu adeiladu modern. Byddai'n werthfawr iawn i reolwyr safle, plastrwyr a seiri meini sy'n gweithio ar adeiladau hanesyddol.

## Calch a morteri calch (2 ddiwrnod)

**Trosolwg**

Bwriad y cwrs hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r ymgeisydd o weithio gyda morteri calch wrth adeiladu gyda, neu atgyweirio, gwaith maen, gwaith carreg a bricwaith traddodiadol. Mae'n cynnig cyfuniad cytbwys o hyfforddiant theori ac ymarferol.

**Crynodeb o'r cynnwys**

- Priodweddau calch
- Calch: cryfderau, defnydd, cyfyngiadau, gweithgynhyrchu, cymysgeddau hybrid.
- Calch wedi'i gymysgu'n boeth.
- Tywod, agregau ac ychwanegion.
- Caledu: carbonadu, y gylchred galch, manteision amgylcheddol.
- Dulliau a chanllawiau cymysgu.
- Adeiladu â charreg - cerrig sych, gwaith maen â morter, rwbel ar hap, cerrig nadd.
- Ychwanegion: pozzolana, blew, rhwyll atgyfnerthu
- Paratoi - y safle, ardal waith, cerrig, ôl-ofal.
- Offer - traddodiadol a modern.
- Gweithio yn y gaeaf gyda chalch.
- Nodi morteri.
- Dadansoddi morteri.
- Cyfnerthu, atgyweirio a phwyntio.

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**

Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sydd â phrofiad o weithio ym maes adeiladu - naill ai adeiladu treftadaeth neu adeiladu modern. Mae'n arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n gweithio gyda gwaith maen ac sy'n dymuno dysgu mwy am ddeunyddiau a dulliau traddodiadol.



## Arolygu pren a lleithder mewn adeiladau (1 diwrnod)

**Trosolwg**

Mae'r pren mewn adeiladau yn dirywio ac yn pydru oherwydd amodau amgylcheddol anffafriol megis dŵr yn gollwng a lleithder neu wlybaniaeth am gyfnodau hir. Diben y cwrs hwn yw rhoi'r wybodaeth i ymgeiswyr er mwyn adnabod problemau'n ymwneud â lleithder a phydredd coed mewn adeiladau, eu datrys ac adrodd amdanynt. Mae'r safon hon yn cwmpasu:

- Cyddwyso a lleithder: achosion, diagnosteg, ac opsiynau triniaeth
- Pren: bioleg, pydredd, a phryfed
- Agweddau cyfreithiol, iechyd a diogelwch, methodoleg arolygon, ac ysgrifennu adroddiadau

**Crynodeb o'r cynnwys**

- Achosion lleithder mewn adeiladau
- Effeithiau lleithder mewn adeiladau
- Diagnosis a dulliau o drin lleithder codi
- Gweithdrefnau arolygu - dulliau o fesur ac asesu lleithder
- Deall dulliau adeiladu traddodiadol gan ganolbwyntio ar elfennau pren
- Tyllwyr pren a ffyngau
- Dulliau o drin plâu coed a phydredd ffwngaidd
- Mathau o gadwolion a sut i'w cymhwyso
- Deddfwriaeth, cyfrifoldebau ac atebolrwydd
- Gweithredu camau iechyd a diogelwch
- Swyddogaeth yr adroddiad arolygu a'i gynnwys

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**

Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sydd â phrofiad o weithio ym maes adeiladu - naill ai adeiladu treftadaeth neu adeiladu modern. Mae'n arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n gweithio mewn Galwedigaethau Coed a byddai'n werthfawr iawn i syrfewyr a phenseiri.

## Adnabod pensaernïaeth (2 ddiwrnod)

**Overview**

Bydd y cwrs hwn yn darparu'r wybodaeth greiddiol allweddol am ddatblygiad pensaernïol adeiladau'r Deyrnas Unedig a dealltwriaeth fanwl o hyn. Bydd yn cynorthwyo'r dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes adeiladu a sut y mae arddulliau wedi datblygu dros amser.

**Crynodeb o'r cynnwys**

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Deall Arddulliau Pensaernïol: Gothig; Adeiladu â Phridd; Fframwaith Pren a mathau o fewnlenwad; Clasurol; Y Dadeni; Y mudiadau Arts and Crafts.
- Deall dilyniannau trwy'r oesau: Rhufeinig; Sacsonaidd; Normanaidd; Canoloesol; Tuduraidd; Jacobeaidd; Yr Adferiad; Dylanwad Ffleminaidd; Sioraidd; Fictoraidd; Modern (20fed ganrif)
- Deall y diffiniad brodorol a boneddigaidd o'r math o bensaernïaeth

**Pwy ddylai fynd ar y cwrs?**

Mae'r cwrs hwn yn gydran hanfodol o'r NVQ Lefel 3 mewn Galwedigaethau Coed Treftadaeth ond mae hefyd yn hynod berthnasol i fanylebwyr a chynllunwyr sy'n cynnal asesiadau o arwyddocâd hanesyddol adeilad.



# Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Plastro Treftadaeth

**Mae'r cyrsiau canlynol yn addas i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau NVQ2 mewn plastro neu sydd â phrofiad cyfatebol o weithio yn y grefft o blastro. Mae'r cyrsiau yn yr adran hon yn ategu'r elfen wybodaeth yn yr NVQ3 mewn Plastro Treftadaeth. Am fanylion llawn am Raglen Sgiliau Cymhwysol Arbenigol NVQ3 neu OSAT ewch i www.canolfantywi.org.uk**

## Dewis a chymysgu deunyddiau ar gyfer gwaith plastro mewnol ac allanol (3 diwrnod)

Mae defnyddio plasteri calch a rendrad yn ganolog i gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau traddodiadol yn llwyddiannus. Mae dealltwriaeth o galch yn hanfodol i unrhyw un sy'n gweithio ar adeiladau hanesyddol. Gydag amrywiaeth eang o gynhyrchion calch ar gael ar y farchnad, bydd y cwrs hyfforddi hwn yn cynnig dealltwriaeth gadarn o wahanol fathau o galch. Bydd hefyd yn ymdrin â dewis agregau priodol gan fod hyn yn hanfodol wrth benderfynu ar ymddangosiad a pherfformiad plasteri calch. Bydd y cwrs hwn hefyd yn eich helpu i benderfynu ar y cymysgedd priodol o rwymwyr ac ychwanegion calch ac yn asesu'r cyfuniad priodol i weddu i'r dasg. Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Deall calch – gwyddor calch a'r gylchred galch, mathau o galch
- Iechyd a diogelwch sy'n benodol i galch
- Ychwanegion – blew, pozzolana, rhwyll/sgrim
- Agregau
- Dadansoddi morteri
- Dulliau cymysgu
- Cymhwyso ar wahanol gefndiroedd - dellt, cerrig, brics
- Sesiynau ymarferol

## Cynhyrchu arwynebau solet wedi'u plastro (5 diwrnod)

Byddai'r rhan fwyaf o'r adeiladau traddodiadol yn cael eu gorffennu â morterau calch yn allanol a'u gwyngalchu, a oedd yn fodd o'u haddurno yn ogystal â'u gwarchod. Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddefnyddio amrywiaeth o orffeniadau calch allanol a mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith 'llinellog' ffurfiol a gorffeniadau gweadog llai ffurfiol ar amrywiaeth eang o fathau o gefndir, gan gynnwys dellt, cerrig a brics. Byddwch yn dysgu sut i baru gorffeniadau traddodiadol a phresennol. Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddysgu am ddulliau o gymysgu a chymhwyso calch a'r ystod o ddeunyddiau sydd ar gael ar gyfer adfer gorffeniadau calch traddodiadol a'i gymhwyso i adeiladau newydd.

- Paratoi gwahanol arwynebau
- Gwaith dilyniannu ar gyfer cymhwyso gwaith plastro mewnol ac allanol
- Cymhwyso a gorffennu gwaith plastro mewnol ac allanol ar waith ag un, dwy a thair côt ar amrywiaeth o arwynebau:
  - fertigol
  - goleddol
  - crwm
  - llorweddol
  - nenfydau
- onglau mewnol ac allanol
- Gorffennu arwynebau i'r arddull briodol a gorffeniad gweadog
- Dyblygu gorffeniadau gweadog





## Cadw arwynebau solet wedi'u plastro (5 diwrnod)

Caiff cymeriad llawer o adeiladau hanesyddol ei gyfrannu i raddau helaeth gan y gorffeniad a gymhwysir i'w muriau. Bydd peidio â diogelu'n ddigonol rhag yr elfennau, ynghyd â diffyg cynnal a chadw, bob amser yn arwain at fod hen rendrad a gwaith plastro mewnol yn methu. Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i ffyrdd o ddiogelu a gwneud atgyweiriadau priodol wrth gadw neu adfer arwynebau plastr solet:

Bydd y cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Cofnodi ac arolygu cyflwr y gwaith plastro presennol
- Strategaethau diogel ar gyfer tynnu gwaith plastro sydd wedi'i ddifrodi i ffwrdd
- Tynnu ac atgyweirio dellt pren a phlastr
- Dulliau o ddarparu garwedd digonol ar wahanol gefndiroedd
- Crafu craciau allan a'u hatgyweirio
- Y deunyddiau a'r dulliau a ddefnyddir i sefydlogi gwaith plastro
- Dulliau o gadw plastr rhydd yn ei le gan ddefnyddio sefydlogwyr mecanyddol neu growtio
- Dewis deunyddiau a chymysgeddau priodol ar gyfer atgyweirio a chyweirio
- Amddiffyn y gwaith ac ôl-ofal

## Gwaith plastro ffibrog ac addurnol (5 diwrnod)

Mae plastr ffibrog yn fath o waith plastro addurnol a wneir yn bennaf o blastr Paris, a gaiff atgyfnerthu â haenau o hesian a'i ddal yn ei le mewn fframwaith pren. Roedd cornis addurnol wedi'i redeg yn y fan a'r lle yn ffordd draddodiadol o ffurfio mowldin, ar y safle, mewn ystafell yn yr uniad rhwng y nenfwd a'r mur. Roedd modd ffurfio mowldinau yn y fan a'r lle mewn morter tywod calch, pwti calch, neu ddeunydd caledu wedi'i fesur.  Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i ddulliau o amddiffyn a gwneud atgyweiriadau priodol wrth gadw neu adfer gwaith plastro ffibrog ac addurnol.

Mae'r cwrs 5 diwrnod hwn yn cynnwys 4 modiwl sy'n cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Dyma'r modiwlau:

**Dewis a chymysgu deunyddiau ar gyfer plastr ffibrog ac addurnol**

- Dewis atgyfnerthiad i'w ddefnyddio wrth gastio (gan gynnwys dellt pren, llinynnau ffibr gwydr, gwifrau a sgrim jiwt)
- Dewis plastr (gan gynnwys plastr mân iawn, plastr mân neu blaster castio safonol)
- Gweithio gyda phwti calch a chymysgeddau wedi'u mesur
- Defnyddio deunydd gwrthdan
- Y drefn gymysgu

**Cynhyrchu gwaith plastro ffibrog a rhedeg mowldiau yn y fan a'r lle**

- Darllen a dilyn cyfarwyddiadau o'r wybodaeth a roddir
- Dyblygu ac atgynhyrchu mowldinau presennol
- Castio rhannau mowldin a glanhau a gorffennu rhannau mowldin wedi'u castio
- Dyblygu a rhedeg rhannau yn y fan a'r lle a gwneud atgyweiriadau

**Gosod gwaith plastro ffibrog**

- Dewis o blith ystod o ddulliau sefydlogi gan ddibynnu ar safle'r plastr ffibrog
- Darparu system ategu eilaidd
- Cyfrifiadau a mesuriadau
- Paratoi a defnyddio deunyddiau atgyfnerthu
- Paratoi ardaloedd gwaith ar gyfer cornis a mowldinau

**Cadw gwaith plastro ffibrog**

- Deall arddull a chyfnod y gwaith plastro
- Achosion cyffredin methiannau mewn plastr ffibrog
- Arolygu a chofnodi
- Iechyd, diogelwch a gofynion cyfreithiol
- Technegau atgyweirio - dulliau a ddefnyddir i sefydlogi ac adfer a chynhyrchu addurniadau a mowldinau i gadw'r arddull wreiddiol





# Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Gwaith Saer Treftadaeth

**Mae'r cyrsiau canlynol yn addas i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau NVQ2 mewn gwaith saer neu sydd â phrofiad cyfatebol o weithio yng nghrefft gwaith saer. Mae'r cyrsiau yn yr adran hon yn ategu'r elfen wybodaeth yn yr NVQ3 mewn Galwedigaethau Coed Treftadaeth. Am fanylion llawn am Raglen Sgiliau Cymhwysol Arbenigol NVQ3 neu OSAT ewch i www.canolfantywi.org.uk**

## Gwaith coed wrth fainc; mewn gweithdy ac ar safle (5 diwrnod)

Nid yw gwaith coed traddodiadol wedi newid fawr ddim dros y canrifoedd; mae'r pren a'r offer a ddefnyddir ar gyfer torri, llunio a ffurfio'r uniadau, gan ddefnyddio elfennau pren yn unig yn bennaf, yn parhau i fod ar ffurf a fyddai'n gyfarwydd i'n cyndadau. Y dulliau o uno a'r modd y cânt eu defnyddio mewn uniadau penodol sy'n gyfrifol am ymddangosiad ffisegol uniad, ynghyd â'i gryfder a'i wytnwch. Nod y cwrs yw cyflwyno dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o'r technegau traddodiadol hynny a fydd yn galluogi ymgeisydd i gynhyrchu ac atgyweirio ystod eang o gynnyrch gwaith coed, a hynny trwy gyfuniad cytbwys o addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gweithdy.

Bydd yr ymgeiswyr yn gweithio ar brosiect adfer go iawn (er enghraifft, atgyweirio ac ailosod ffenestri codi traddodiadol) a wneir ar y safle ac yn y gweithdai. Mae'r deilliannau dysgu yn cynnwys:

- Offer y grefft; dewis, storio, miniogi, gofal a chynnal a chadw
- Siapio a melino
- Dealltwriaeth o fanylion coed treftadaeth
- Gwybodaeth am atgyweiriadau gwaith coed cyffredinol ar y safle; mesur a sgrifellu
- Gwneud a defnyddio jigiau
- Gweithgynhyrchu cynhyrchion gwaith coed wrth fainc, gan gynnwys rhai cymhleth ac wedi'u llunio'n benodol, gan ddefnyddio hen offer a rhai newydd
- Gosod gwaith coed wrth fainc (mewn cyd-destun hanesyddol)

## Fframwaith pren trwm (5 diwrnod)

Nid yw coed a'r offer llaw a ddefnyddir i dorri a ffurfio uniadau wedi newid llawer dros y canrifoedd. Nod y cwrs hwn yw addysgu ymgeiswyr am ddatblygiad a hanes strwythurau fframwaith pren, dewis a chyfeiriad pren priodol, nodi diffygion, a deall pryd y mae angen atgyweiriadau a sut i'w cadw neu eu hatgyweirio'n effeithiol.

Bydd yr ymgeiswyr yn cael prosiect adfer a bydd y gwaith dysgu a'r gwaith ymarferol yn seiliedig arno.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Adnabod cydrannau
- Cadw neu adfer ar y safle; derw neu fframweithiau tebyg
- Miniogi offer y grefft, gofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw
- Cyfeiriad pren, gosod allan a sgrifellu llinell blwm
- Cynhyrchu mathau o uniadau a dulliau o dorri
- Hanes fframwaith pren trwm
- Dewis pren a chulhad

## Cadw neu adfer cynnyrch pren (2 ddiwrnod)

Mae seiri coed a seiri dodrefn yn gweithio ar ystod amrywiol o dasgau sy'n gysylltiedig â'n hadeiladau traddodiadol; o do wedi'i dorri i atgyweirio ffenest godi. Mae pob un o'r rhain yn gofyn am ddealltwriaeth o arwyddocâd yr elfennau hynny, cydnabyddiaeth o ddeunyddiau priodol ac amhriodol a dulliau o osod trefn ar atgyweiriadau ac addasiadau mewn modd diogel.
Bwriad y cwrs hwn yw canolbwyntio ar fod yr ymgeisydd yn gallu defnyddio gwybodaeth dechnegol ac adnoddau i gadw neu adfer cynnyrch pren.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:
- Cydnabod arwyddocâd hanesyddol a gwneud newidiadau y gellir eu dad-wneud
- Asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth
- Deall dulliau priodol a sefydlu diwylliant diogel ar y safle i ddiogelu'r dreftadaeth a'i chyd-destun
- Rhaglennu, paratoi, cynllunio a gweithio i amserlen
- Adnabod ymyriadau blaenorol
- Deall effeithiau newidiadau i adeiladau
- Esbonio arddulliau uniadau, eu natur sy'n gysylltiedig ag oedran
- Technegau sefydlogi
- Elfennau sy'n dal pwysau a rhai nad ydynt yn dal pwysau
- Deall strwythur

## Adnabod diffygion; achos ac effaith ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth (1 diwrnod)

Gall diffygion mewn pren fod yn digwydd yn naturiol neu gael eu hachosi gan y dulliau trosi neu sychu a ddefnyddir. Mewn adeiladau, gall dirywiad a phydredd ddigwydd oherwydd amodau amgylcheddol anffafriol megis dŵr yn gollwng a lleithder neu wlybaniaeth am gyfnodau hir neu gall ddigwydd oherwydd bod pren amhriodol wedi'i ddewis. Diben y cwrs hwn yw rhoi'r wybodaeth i ymgeiswyr er mwyn nodi, datrys ac adrodd am broblemau'n ymwneud â diffygion mewn pren a phydredd mewn adeiladau.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:
- Gallu adnabod difrod a deunyddiau amhriodol
- Adnabod a deall cyddwysiad a lleithder: achosion a diagnosteg
- Deall effeithiau lleithder ar waith coed a'i drin
- Adnabod pydredd sych a'i drin
- Cydnabod ymosodiadau pryfed a nodi opsiynau triniaeth addas

## Adnabod deunyddiau ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth (2 ddiwrnod)

Er nad yw pren, fel deunydd, wedi newid rhyw lawer dros y canrifoedd mae'r graddau y mae pren brodorol a phren a fewnforiwyd ar gael, yn ogystal â dyfodiad cynhyrchion pren wedi'u peiriannu, wedi cynyddu'r angen am ddealltwriaeth wrth adnabod pren traddodiadol a'r defnydd a wneir ohono.

Bwriad y cwrs hwn yw canolbwyntio ar fod yr ymgeisydd yn gallu adnabod a disgrifio ystod o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â gwaith coed treftadaeth.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:
- adnabod a disgrifio amrywiaeth o gydrannau pren mewn gwaith treftadaeth a'r wyddoniaeth y tu ôl i'w tarddiad
- adnabod a disgrifio pren meddal a phren caled gan gynnwys eu tarddleoedd, eu priodweddau, sut i'w hadnabod, y gwahaniaethau rhyngddynt a'r defnydd a wneir ohonynt
- adnabod ansawdd ac amlbwrpasedd - dewis a meintioli'r adnoddau gofynnol
- adnabod a disgrifio nwyddau haearn
- adnabod a disgrifio gludyddion a gorffeniadau traddodiadol

## Technegau arbenigol ar gyfer galwedigaethau coed treftadaeth (1 diwrnod)

Mae deall cynlluniau, lluniadau a manylebau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud yn ôl gofynion y contract. Bydd y cwrs hwn yn galluogi dysgwyr i ddehongli lluniadau'n gywir wrth baratoi ar gyfer unrhyw waith newydd neu waith atgyweirio i adeiledddau pren neu unedau gwaith coed.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Darllen cynlluniau a manylebau - dehongli a thynnu gwybodaeth
- Lledaenu gwybodaeth, nodi anghysondebau a'r weithdrefn ar gyfer camau pellach
- Sut i luniadu - geometreg, theorem Pythagoras, trigonometreg sylfaenol
- Gosod datwm a strwythurau gwaith coed cymhleth
- Offerynnau mesur hen a newydd







# Gwybodaeth fanwl am Gyrsiau Gwaith Saer Maen Treftadaeth

**Mae'r cyrsiau canlynol yn addas ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau NVQ2 mewn gwaith saer maen neu fricwaith neu sydd â phrofiad cyfatebol o weithio yng nghrefft gwaith saer maen. Mae'r cyrsiau yn yr adran hon yn ategu'r elfen wybodaeth yn yr NVQ3 mewn Gwaith Saer Maen Treftadaeth. Am fanylion llawn am yr NVQ3 OSAT ewch i www.canolfantywi.org.uk**

## Adnabod deunyddiau - Gwaith Saer Maen (2 ddiwrnod)

Mae deall defnydd, cyfansoddiad a chymhwysiad morteri calch a chlai yn ganolog i gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau traddodiadol yn llwyddiannus. Gydag amrywiaeth eang o gynhyrchion calch ar gael ar y farchnad, bydd y cwrs hyfforddi hwn yn cynnig dealltwriaeth gadarn o wahanol fathau o galch a sut i'w defnyddio'n briodol. Bydd hefyd yn cynnwys dewis agregau gan fod hyn yn hanfodol wrth benderfynu ar ymddangosiad a pherfformiad morteri calch a chlai traddodiadol. Bydd y cwrs hwn hefyd yn eich helpu i benderfynu ar y cymysgedd priodol o rwymwyr ac ychwanegion calch ac yn asesu'r cyfuniad priodol i weddu i'r dasg.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:
- Yr ystod o gerrig a brics a ddefnyddir mewn gwaith treftadaeth
- Morteri calch a'r gylchred galch
- Defnyddio pridd a chlai
- Gwyngalch
- Pwti calch
- Sment Rhufeinig
- Agregau a pozzolana
- Deunyddiau modern sy'n caniatáu i'r wal anadlu
- Storio deunyddiau
- Achub deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio

## Adnabod diffygion: achos ac effaith ar gyfer gwaith saer maen treftadaeth (1 diwrnod)

Ar gyfer adeiladau sydd wedi bod yn sefyll am 100 o flynyddoedd neu fwy, gall traul, patina a nodweddion sydd allan o blwm i gyd gyfrannu at eu cymeriad hanesyddol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod saer maen yn gallu deall pryd y bydd nodwedd ar gymeriad yr adeilad yn dod yn fwy o ddiffyg ac o ganlyniad yn peryglu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd yr adeilad. Bydd y cwrs hwn yn ymchwilio i ddifrod a achosir i adeilad trwy hindreulio, ymosodiadau cemegol a symudiad, ac yn trafod yr ymyriadau priodol i atal dirywiad pellach.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:
- Adnabod difrod a deunyddiau amhriodol
- Staenio a gweithgarwch halen
- Hindreulio
- Strwythurol
- Ymyriadau amhriodol
- Gwaith haearn sy'n dirywio/rhydu
- Ymweliad â'r safle i ddangos y diffygion



## Cadw gwaith carreg; atgyweirio a chynnal a chadw (5 diwrnod)

Mae'r cwrs hwn yn addas i ddysgwyr sydd â phrofiad o weithio gyda brics yn ogystal â seiri meini sefydledig. Ar ôl ei gwblhau bydd y dysgwyr yn gallu gwneud atgyweiriadau i waliau cerrig hanesyddol gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i adeiladwaith gwreiddiol y wal. Bydd yn cynnwys gwaith atgyweirio a sefydlogi ar rwbel, waliau o gerrig nadd ac o gerrig lled-nadd; fodd bynnag, ni fydd yn cynnwys unrhyw waith wrth fainc na gwaith cerfio.

Bydd y cynnwys y cwrs yn cynnwys:

- Cydnabod arwyddocâd hanesyddol a gwneud newidiadau y gellir eu dad-wneud ac asesiadau o effaith
- Adnabod ymyriadau blaenorol
- Offer y grefft
- Mathau o ategion
- Mathau o sylfeini
- Uniadau adeiladu a ddefnyddir mewn adeileddau o waith maen
- Gwahanol fathau o adeiladu waliau
- Cyrsiau ymestynnol
- Atgyfnerthu
- Growtio
- Ystorau, gosod atgyfnerthiadau, ategion a cherrig wedi'u hailgyfansoddi
- Gosod angorau adeileddol
- Caledu a phwyntio
- Torri morter diffygiol allan

## Technegau arbenigol (1 diwrnod)

Mae deall cynlluniau, lluniadau a manylebau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud yn ôl gofynion y contract. Bydd y cwrs hwn yn galluogi dysgwyr i ddehongli lluniadau'n gywir wrth baratoi ar gyfer unrhyw waith newydd neu waith atgyweirio i adeileddau gwaith maen.

Bydd cynnwys y cwrs yn cwmpasu:

- Darllen o gynlluniau a manylebau
- Lledaenu gwybodaeth, nodi anghysondebau a'r gweithdrefnau ar gyfer camau pellach
- Darluniau wrth raddfa
- Gosod datymau a strwythurau gwaith maen cymhleth
- Offer mesur ac offerynnau hen a newydd.



